



## Prosiect Gwydnwch Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

### Astudiaeth Achos: Menter Ty'n Llan Cyfyngedig

*Mae Menter Ty'n Llan Cyfyngedig yn Gymdeithas Budd Cymunedol a sefydlwyd ym mis Mawrth 2021. Ei nod oedd sicrhau cyfle i'r gymuned fod yn berchen ar ei thafarnleol a oedd wedi bod ar gau ers cryn amser, trwy gynnig cyfranddaliadaucymunedol, gyda'r nod o'i ailagor fel tafarn a hefyd, fel lle y gallai'r gymuned gyfaneu ddefnyddio.*

Cawsom ein cyfarfod cyntaf gyda'r grŵp ym mis Chwefror 2021, a gofynnwyd a fyddai moddi ni gynorthwyo datblygiad eu dogfen cynnig cyfranddaliadau a gweithio gyda nhw igyflawni Marc Safon yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol. Roedd y grŵp yn awyddus iweithredu yn gyflym, a'u nod oedd lansio'r cynnig cyfranddaliadau ym mis Ebrill 2021. Roeddent wedi symud yn gyflym a chyn pen wythnos, roeddent wedi sicrhau addewidion arffurf benthyciadau tymor byr a oedd yn werth mwy na'r £325,000 yr oedd ei angen er mwntynnu'r dafarn oddi ar y farchnad!

Wrth fynd trwy broses y Marc Safon, bu modd i ni gynnig cymorthychwanegol gyda'u gweithgarwch cynllunio busnes trwy gyfrwng Prosiect Cychwyn Newydd. Ar ôl creu sawl drafft o'r marc safon, dyfarnwyd Marc Safon yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol i'r grŵp ym mis Ebrill 2021, yn barod am eu lansiad! Penderfynontosod targed i godi £400,000 fel isafswm ac £850,000 fel uchafswm, a fyddai'n caniatáu iddynt ailfodelu ac adnewyddu'r adeilad at y defnydd lluosog sy'n angenrheidiol os ydynt yn myndi fod yn gynaliadwy dros y tymor hir.

***Bu'r cynnig cyfranddaliadau ar agor am 7 wythnos, gan ddod i ben ar 11 Mehefin, allwyddwyd i godi £464,800 gan 1012 o fuddsoddwyr. Mae 257 o fuddsoddwyr yn byw yn y pentref (460 yw maint poblogaeth y pentref) ac mae gan 458 ohonynt god post lleol, ond maent wedi cael buddsoddwyr o'r Almaen, Canada, Sweden, Cyprus, Ffrainc a Seland Newydd hefyd!***

Cynhaliont ymgyrch amrywiol a gwych, gan hyrwyddo a sicrhau cymradwyaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol gan wynebau cyfarwydd fel Rhys Ifans a Shane Williams. Roedd ymdrechion pellach i godi arian yn cynnwys gwerthu crysau T abariau siocled Achub Ty'n Llan.

Llwyddon nhw i gyfnewid contractau a chael yr allwedd ddiwedd fis Mehefin. Ar ôl treuliochydig ddiwrnodau yn torri'r lawntiau ac yn tocio'r coed, bu modd iddynt agor yr ardd ermwyn cynnal dau ddiwrnod dathlu yn ystod yr haf. Trwy waith caled y gwirfoddolwyr a fu'n paentio, yn addurno ac yn tacluso, llwyddont i agor y safle dros dro dros yr haf.

Ym mis Awst 2021, anogwyd y grŵp gan y Tîm Cyfranddaliadau Cymunedol i gyflwyno cais i Gronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU. Gan eu bod wedi cynnal cynnigcyfranddaliadau llwyddiannus, roedd hyn yn golygu bod ganddynt arian i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol. Ym mis Hydref 2021, dywedwyd wrthynt eu bod yn 1 o blith 3 grŵp yn unigo Gymru a fu'n llwyddiannus! Trwy waith caled y gwirfoddolwyr yn paentio, yn addurno ac yn tacluso, maent yn bwriadu agor y bar dros dro yn barod am y Nadolig, ac maent wedi cyflogi eu gweithwyr cyntaf ermwyn gallu gwneud hynny.

Yn ogystal, maent wedi sicrhau cyllid ar ffurf grant a morgais gan Gronfa Datblygu Asedau Cymunedol CGGC ac maent wedi cyflwyno ceisiadau am grantiau gan ffynonellau eraill hefyd. Mae'r rhain oll yn angenrheidiol os ydynt yn mynd i wireddu'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad, y maent bellach yn destun ymgynghoriad gyda'r gymuned. Maent yn gobeithiosicrhau bod popeth yn ei le er mwyn cynnal proses dendro yn y Flwyddyn Newydd, er mwyn sicrhau bod y dafarn a'r ganolfan gymunedol wedi'i hadnewyddu yn llwyr ar gael cyn gynted ag y bo modd.



## Amdanom ni

Ariennir Prosiect Cadernid Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Cymru ac mae'n cael ei ddarparu gan Cwmpas. Rydym yn helpu cymunedau i gael buddsoddiad i ddiogelu a chryfhau'r pethau sydd o bwys iddyn nhw.

Ebost: [csw@cwmpas.coop](mailto:csw@cwmpas.coop)  
Ar-lein: [www.cwmpas.coop](http://www.cwmpas.coop)  
Ffôn: 0300 111 5050

# cwmpas

